



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Gwybodaeth a Chyngor i Rieni a Pherthnasau ar Lid yr Ymennydd a Septisemia

Y Tîm Atal Heintiau

Rydym wedi datblygu'r daflen hon i roi cyngor i chi ac ateb rhai o'ch cwestiynau am lid yr ymennydd/septisemia.

Beth yw Llid yr Ymennydd?

Chwydd ar y leinin (gorchudd meddal) o amgylch yr ymennydd (pilenni'r ymennydd) yw llid yr ymennydd. Sawl germ gwahanol all achosi'r llid, bacteria a feirysau'n bennaf

➤ **Llid Feirysol yr Ymennydd**

Math o Lid yr Ymennydd yw hwn a achosir gan sawl feirws gwahanol. Nid yw gwrthfotigau'n ei drin ac mae triniaeth yn seiliedig ar ofal nyrsio da.

➤ **Llid Bacteriol yr Ymennydd**

Bacteria sy'n achosi'r math hwn o Lid yr Ymennydd. Gall fod yn llawer mwy difrifol na Llid Feirysol yr Ymennydd. Mewn achosion eithriadol, gall arwain at niwed i'r ymennydd, gwenwyn gwaed (septisemia) a marwolaeth. Mae angen triniaeth frys ar Lid Bacteriol yr Ymennydd gyda gwrthfotigau, a roddir fel arfer drwy nodwydd a fewnosodir fel arfer yng nghefn y fraich.

Sut cafodd fy mhlentyn/perthynas Lid yr Ymennydd?

Mae'r byg neu ficro-organebau sy'n achosi Llid yr Ymennydd yn gyffredin iawn a gallant fyw heb greu niwed yng nghefn y trwyn a'r llwnc. Gall pobl o unrhyw oedran gario'r bygiau neu'r micro-organebau heb fod yn ymwybodol ohonynt.

Fel arfer, mae'n lledaenu drwy gysylltiad agos rhwng pobl yn y cartref a thrwy gyswllt personol, fel cusanu. Ni all y bygiau neu'r micro-organebau fyw y tu allan i'r corff am gyfnodau hir ac ni ellir eu lledaenu gan gyflenwadau dŵr, pyllau nofio, adeiladau neu ffatrioedd.

Sut mae Llid yr Ymennydd yn cael ei adnabod?

Nid yw'n hawdd adnabod llid yr ymennydd. Pan fydd y bygiau neu'r micro-organebau yn ymledu o'r trwyn a'r llwnc i bilenni'r ymennydd (sy'n gorchuddio'r ymennydd), yna mae'r symptomau'n dechrau. Gall llid yr ymennydd gymryd wythnos i ddatblygu, neu gall ddatblygu'n gyflym iawn. Gall y symptomau sy'n debyg i'r fflw gynnwys:

- Tymheredd uchel
- Chwydu
- Pen tost

- Gwddf stiff
- Poen yn y cymalau
- Ffotoffobia (anallu i oddef golau)
- Cysgadrwydd
- Diffyg egni
- Ffitiau
- Brech (gweler isod)

Ni fydd pob un o'r symptomau uchod yn bresennol mewn unrhyw un achos.

Os yw'r haint hefyd yn y llif gwaed gall brech benodol ymddangos. I ddechrau, gall smotiau bach iawn coch i borffor fod yn bresennol, sy'n troi'n nes ymlaen yn gleisiau ffres. Nid yw'r frech yn pylu wrth wasgu arni. Gallwch wirio hyn drwy roi gwydr clir yn erbyn y croen. Erbyn i'r frech ymddangos mae'r unigolyn yn aml yn ddifrifol wael.

Sut y rhoddir diagnosis o Lid yr Ymennydd?

Gellir cadarnhau'r diagnosis o Lid yr Ymennydd drwy wneud pigiad yn y lwynau. Triniaeth yw hon pan roddir nodwydd yn y cefn isaf i ddraenio ychydig o hylif asgwrn cefn (sy'n gorchuddio'r ymennydd). Caiff hyn ei anfon i'r labordy ei archwilio. Gellir adnabod bryd hynny y mathau o germau sydd wedi achosi'r chwydd ar bilenni'r ymennydd.

Fel arall, weithiau gellir adnabod y bygiau neu'r micro-organebau drwy brofion gwaed, er efallai na fydd hyn yn rhoi ateb mor gyflym â phigiad yn y lwynau.

Sut caiff Llid yr Ymennydd ei drin?

Bydd gwrthfotig cryf yn cael ei gychwyn ar unwaith cyn gynted ag yr amheuir llid bacteriol yr ymennydd.

A fydd angen triniaeth ar weddill fy nheulu?

Gellir lleihau lledaeniad rhai mathau o Lid yr Ymennydd bacteriol e.e. Meningitis "Meningococaid". Gellir gwneud hyn drwy roi triniaeth wrthfotig i aelodau agos o'r teulu ac aelodau'r cartref ac weithiau brechlyn. Nid yw cael gwrthfotigau yn lleihau'r risg i sero. Dylech barhau fod yn wiliadwrus am symptomau mewn unrhyw un sydd wedi bod mewn cysylltiad agos.

Caiff y Meddyg Iechyd Cyhoeddus ei hysbysu'n awtomatig ac, os yw'n briodol, bydd yn trefnu i bob cyswllt agos dderbyn y gwrthfotigau.

Efallai y gofynnir i'r meddyg sy'n gofalu am eich plentyn/perthynas neu eich meddyg teulu ragnodi'r rhain i chi. Nid yw gwrthfotigau yn helpu o gwbl mewn achosion o gyswllt â llid feirysol yr ymennydd nac achosion Meningitis "niwmococal".

A fydd angen triniaeth ar unrhyw un arall?

Gofynnwch i'r meddyg sy'n gofalu am eich plentyn/perthynas i ddweud wrth y Meddyg Iechyd Cyhoeddus os yw eich plentyn yn mynychu meithrinfa, cylch chwarae neu ysgol. Mae hefyd yn bwysig gwybod a yw'r plentyn wedi mynychu

unrhyw fath o ddigwyddiadau cymdeithasol fel parti yn ystod y dyddiau diwethaf cyn i'r salwch ddechrau.

A all fy mhlentyn/perthynas gael Llid yr Ymennydd/septisemia fwy nag unwaith?

Mae gwahanol fathau o germau sy'n gallu achosi Llid yr Ymennydd ac mae'n bosibl cael Llid yr Ymennydd mwy nag unwaith.

A all fy mhlentyn/perthynas gael ymwelwyr?

Nid ystyrir bod pobl ar wahân i gysylltiadau yn y cartref mewn perygl. Bydd ymwelwyr yn cael eu cyfyngu i sicrhau bod y claf yn cael digon o orffwys.

A fydd Llid yr Ymennydd yn effeithio ar fy mhlentyn/perthynas yn y tymor hir?

Mae rhai cleifion yn gwella'n gyflym. Efallai y bydd angen llawer o gymorth a gofal ar eraill yn yr wythnosau a'r misoedd ar ôl eu salwch. Mae'n amhosibl rhagweld p'un a fydd unrhyw broblemau hirdymor.

Cynghorir rhieni/gofalwyr i gadw golwg am nifer o symptomau a allai fod oherwydd Llid yr Ymennydd neu effeithiau hirdymor o fod yn yr ysbyty. Mae symptomau'n cynnwys:

- Blinder cyffredinol
- Pen tost sy'n codi dro ar ôl tro
- Colli cof byrdymor
- Lletchwithdod
- Penysgafndod – problemau cydbwysedd
- Iselder
- Teimlo'n dawedog
- Pyliau o dymer treisgar
- Pyliau o ymddygiad ymosodol
- Hwyliau cyfnewidiol
- Anawsterau dysgu/llai o allu mewn rhai meysydd yn yr ysgol
- Byddardod (gall fod yn fyrdymor)

Os bydd y symptomau hyn yn digwydd, gofynnwch i'ch pediatregydd neu'ch meddyg teulu am gyngor.

O ble caf i ragor o wybodaeth?

*Ymddiriedolaeth Genedlaethol Llid yr Ymennydd/The National Meningitis Trust – 01453 768000
(08088-010388 – llinell 24 awr)*

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y **Tîm Atal Heintiau**. Os hoffech weld unrhyw un ohonynt, gofynnwch i staff y ward gysylltu â nhw.

Y TÎM ATAL HEINTIAU

Ysbyty Nevill Hall

01873 - 732048

Ysbyty Brenhinol Gwent

01633 – 238101

**gan gynnwys yn y Gymuned,
Ysbyty Ystrad Fawr ac
Ysbyty Aneurin Bevan**

07903 324603

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English”.**